

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWDYD AR 25 MEHEFIN 2019 YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD.

Yn bresennol: Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes)

Ymddiheuriadau: Mrs Julie May

Amser Dechrau: 10:00

Amser Gorffen: 13:10

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddwyd diweddariad gan y Cadeirydd Dros Dro i'r Comisiwn ar ei bresenoldeb yn Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Cymru ym Merthyr. Nododd y Cadeirydd Dros Dro'r cyfle i gydweithio â chyrrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a allai fod o fudd i'r sefydliad, yn ogystal â chyfleoedd i gefnogi'r symudiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus.

2.2. **Cytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r Uned Cyrff Cyhoeddus y bydd y Comisiwn yn gallu darparu cyfleoedd 'cysgodi bwrdd' at y diben hwn.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 29 Mai 2019

3.1. Yn amodol ar rai mân ddiwygiadau, **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai 2019 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 17 Mehefin 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd. Gwnaed cais gan Gomisiynydd y dylid ychwanegu Gwobr Iechyd y Gweithle Bach at y rhestr, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddarau ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Llythyr Cylch Gwaith 2019/20 (Hygyrchedd adroddiadau).
- **(Mater 2)** Rhaglen Newid

5. Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr – Opsiynau Terfynol

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 12 Mehefin 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft at gyfer Rhanbarth 1 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Caerau, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n cadw ffiniau presennol wardiau etholiadol a chymunedau.

5.3. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 2 – Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Abercynffig, Betws, Blaengarw, Llangeinwyr, Pen-y-Fai a Phontycymer.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n mynd i'r afael a chynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Drafft
- Mae'n cadw dau o'r trefniannau presennol ac yn cadw cysylltiadau cymunedol.

5.4. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 3 – Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bryncethin, Bryncoch, Felindre, Hendre, Pen-prysg, Sarn ac Ynysawdre.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r lefelau o amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cadw cymunedau cyfan.

- 5.5. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 4 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys ward etholiadol:

Coety, Litchard a Phendre

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r lefelau o amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cadw'r Gymuned gyfan
- Mae'n ystyried nifer yr etholwyr a ragamcanir ar gyfer 2022.

- 5.6. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 5 – Opsiwn 2 (Cynigion Drafft Diwygiedig) sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bracla a Llangrallo Isaf

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol yn yr ardal
- Mae'n dileu ward bresennol â phedwar aelod
- Mae'n mynd i'r afael â lefel uchel o orgynrychiolaeth yn ward etholiadol bresennol Llangrallo Isaf.

- 5.7. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 6 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Morfa, Castellnewydd a Hengastell

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol yn yr ardal
- Mae'n alinio â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn yn gyffredinol trwy roi nifer priodol o gynghorwyr ar gyfer yr ardal
- Mae'n cadw wardiau etholiadol a ffiniau cymunedau presennol.

- 5.8. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 7 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.

- 5.9. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 8 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Drenewydd, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Rest Bay.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.
- Mae'n cadw cymaint â phosibl o wardiau un aelod.

- 5.10. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 9 – Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Cefn Cribwr, Corneli a'r Pîl

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol, heb ynysu etholwyr.

6. Arolwg Etholiadol Sir y Fflint – Adroddiad Drafft

- 6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 12 Mehefin 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 6.2. Cafodd cynnwys yr adroddiad ei ystyried gan y Comisiwn, ac enwau a gynigir ar gyfer wardiau etholiadol.
- 6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

7. Datganiad Polisi Tâl 2018-19

- 7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 18 Mehefin 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 7.2. Nodwyd bod angen i'r Rheolwr Cyllid wirio'r cynnwys a ddangosir yn Atodiad 2 i sicrhau ei fod yn gywir ac y bydd yn cael ei gytuno yn dilyn unrhyw ddiwygiadau posibl.
- 7.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Mehefin 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 8.2. Nodwyd bod angen diweddarau Risg CR2 yng ngoleuni'r newidiadau i strwythur staff y Comisiwn. **Cytunwyd** y bydd Risg CR2 yn cael ei hadolygu eto yn y cyfarfod nesaf.
- 8.3. **Cytunwyd** y bydd Risg CR6 newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael ei hychwanegu i gynnwys y risg o niwed i enw da'r Comisiwn a hyder rhanddeiliaid pe na bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Gorchmynion o fewn amserlen resymol ar ôl cwblhau arolygon y Comisiwn.

9. Adroddiad Cyllideb

- 9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Mehefin 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. Nododd y Comisiwn mai'r sefyllfa ers diwedd mis Mai 2019 oedd tanwariant o £32K, yn bennaf oherwydd ni dderbyniwyd anfonebau heb eu talu gwerth £18K ar gyfer staff ar secondiad, ynghyd â recriwtio Swyddogion Arolygon ychwanegol. Fodd bynnag, rhagwelwyd y bydd newidiadau diweddar i'r strwythur staff yn defnyddio rhywfaint o'r tanwariant a nodwyd.
- 9.3. Nodwyd bod anfoneb am £11K ar gyfer talu costau staff chwarterol Swyddog Arolygon ar secondiad wedi bod yn destun anghydfod ers nifer o fisoedd ac ni chymerwyd unrhyw gamau hyd yma gan y rhiant-adran. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn gwneud taliad rhannol o amcangyfrif o gostau cyflog y secondiad ar gyfer yr anfoneb.
- 9.4. **Nodwyd** yr adroddiad.

10. Cyfrifon Blynyddol Drafft 2018-19

- 10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Mehefin 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 10.2. Amlinellwyd prif bwyntiau'r Cyfrifon Blynyddol drafft gan y Rheolwr Cyllid a dywedodd wrth yr Aelodau fod Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal yr archwiliad o'r cyfrifon ar hyn o bryd. Bydd y Cyfrifon Blynyddol terfynol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.
- 10.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

11. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

- 11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
- 11.2. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.
- 11.3. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

12. Adroddiad Hygyrchedd

- 12.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn ymateb i'r amcan yn llythyr cylch gwaith 19/20 i wella hygyrchedd adroddiadau'r Comisiwn.
- 12.2. I'r perwyl hwn, ystyriwyd dau frasfodel ar gyfer ffeithluniau ar yr Argymhellion Terfynol y mae'r Comisiwn wedi'u cwblhau.
- 12.3. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad a chytunodd y Comisiwn y dylid cario'r cynnig ymlaen fel rhan o arfer safonol mewn arolygon yn y dyfodol.

13. Calendr Digwyddiadau

- 13.1. Ni wnaed unrhyw ychwanegiadau i'r Calendr digwyddiadau.
- 13.2. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

14. Unrhyw Fusnes Arall

- 14.1. Trafododd y Comisiwn Adolygiad Barnwrol Comisiwn Ffiniau Gogledd Iwerddon. Nododd y Comisiwn y penderfyniad hwn a chytunwyd y byddai ymgynghori'n ddelfrydol o fewn amserlen arferol o 10 mlynedd.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 30 Gorffennaf 2019